



Cyfarfod

**PWYLLGOR CRAFFU GOFAL**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD IAU, 6ED MEHEFIN, 2019**

Lleoliad

**Siambwr Hywel Dda - Swyddfeydd y Cyngor, Caernarfon**

**\* NODER \***

**Bydd y cyfarfod yn cael ei we-ddarlledu**

[https://gwynedd.public-i.tv/core//cy\\_GB/portal/home](https://gwynedd.public-i.tv/core//cy_GB/portal/home)

Pwynt Cyswllt

**Rhonwen Jones**

**01286 679780**

**RhonwenJones@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Mercher, 29 Mai 2019)

## **PWYLLGOR CRAFFU GOFAL**

### **AELODAETH (18)**

#### **Plaid Cymru (10)**

Y Cynghorwyr

Gareth Jones  
Alan Jones Evans  
Olaf Cai Larsen  
Linda Ann Jones  
Sedd Wag - Plaid Cymru

Menna Baines  
Dafydd Owen  
Annwen Daniels  
Peter Read

#### **Annibynnol (5)**

Y Cynghorwyr

Eryl Jones-Williams  
Beth Lawton  
Angela Russell

Richard Medwyn Hughes  
Dewi Wyn Roberts

#### **Llais Gwynedd (1)**

Y Cynghorydd  
Anwen J. Davies

#### **Annibynnol Unedig Gwynedd (1)**

Y Cynghorydd  
Sedd Wag - Annibynnol Unedig Gwynedd

#### **Aelod Unigol (1)**

Y Cynghorydd  
Sedd Wag - Aelod Unigol

#### **Aelodau Ex-officio**

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

#### **Aelodau Eraill a Wahoddwyd**

Dafydd Meurig, Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant

# R H A G L E N

## 1. ETHOL CADEIRYDD

I ethol Cadeirydd i'r pwyllgor hwn am y flwyddyn 2019-20.

## 2. ETHOL IS-GADEIRYDD

I ethol Is-gadeirydd i'r pwyllgor hwn am y flwyddyn 2019-20.

## 3. YMDDIHEURIADAU

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb..

## 4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 5. MATERION BRYN

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 6. COFNODION

4 - 8

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar y 28ain o Fawrth 2019 yn gywir. (atodir)

## 7. ANAWSTERAU RECRIWTIO

9 - 14

### **Aelod Cabinet: Y Cynghorydd Dafydd Meurig**

I dderbyn adroddiad ar yr uchod.

\*10.35 – 11.35

(amcangyfrif amseru)

---

## PWYLLGOR CRAFFU GOFAL 28/03/2019

---

**YN BRESENNOL:** Y Cyngorydd Eryl Jones-Williams (Cadeirydd)  
Y Cyngorydd Dewi Wyn Roberts (Is-gadeirydd)

Y Cyngorwyr: Menna Baines, Elin Walker Jones, Olaf Cai Larsen, Alan Jones Evans, Dafydd Owen, Annwen Daniels, Beth Lawton, Angela Russell, Anwen J Davies

**Swyddogion:** Gareth James (Rheolwr Aelodau – Cefnogi a Chraffu), Rhonwen Jones (Swyddog Cefnogi Aelodau).

### HEFYD YN BRESENNOL:

Mewn perthynas ag eitem 5 ar y rhaglen: Y Cyngorwr Craig ab Iago (Aelod Cabinet Tai, Hamdden a Diwylliant, Aled Davies (Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, Arwel Wyn Owen (Uwch Reolwr Tai a Llesiant, Rhys Alun Williams (Swyddog Strategol Tai).

- YMDDIHEURIADAU:** Y Cyngorwyr Peter Reed.  
Cydymdeimlwyd a'r Cyngorwr Linda Ann Jones yn ei phrofedigaeth.  
Deallwyd bod Y Cyngorwyr Rheinallt Puw wedi ymddiswyddo o'r Pwyllgor Craffu Gofal, mater i grŵp Plaid Cymru yw penodi yn ei le.
- DATGAN BUDDIANT PERSONOL**  
Y Cyngorwr Cai Larsen (Bwrdd Cartrefi Cymunedol Gwynedd).
- MATERION BRYD**  
Ni dderbyniwyd unrhyw faterion bryd.
- COFNODION**  
Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar y 31ain o Ionawr, 2019 fel rhai cywir.
- Drafft Strategaeth Tai:**

#### **Cefndir:**

Cyflwynwyd diweddariad ar yr adroddiad gan yr Uwch Reolwr Tai a Llesiant, Aelod Cabinet Tai, Hamdden a Diwylliant a'r Swyddog Strategol Tai, gan ofyn i'r aelodau ystyried cynnwys y strategaeth ymhellach, cyn i'r ddogfen gael ei chyflwyno ger bron y Cyngor llawn ar gyfer ei mabwysiadu yn ffurfiol.

Y Cyd-destun yw bod Deddf Tai (Cymru 2014) yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol lunio Strategaeth Tai ar gyfer ei hardal bob pum mlynedd. Mae'r Strategaeth Tai yn gyfle i adnabod ffactorau sy'n dylanwadu ar y galw am dai ac i amlinellu blaenoriaethau'r Cyngor a'r modd y bydd yn ceisio cyflawni'r amcanion strategol fel awdurdod lleol.

Bwriad y Strategaeth yw gosod fframwaith i sicrhau bod y Cyngor yn canolbwyntio ar y blaenoriaethau cywir ar gyfer darparu cartrefi i bobl Gwynedd a gwneud y defnydd gorau o'r adnodau prin i wella darpariaeth a'r draws y Sir. Golygai fod yna gyfle euraidd i'r Strategaeth Tai wneud gwahaniaeth dros y blynyddoedd i ddod; er mwyn manteisio yn llawn bydd yn rhaid i'r Strategaeth fod yn ddogfen fyw gan ymateb i wahanol gyfleoedd a godir. Y consensws yw cydweithio yn agos gyda'r Cymdeithasau Tai a Phartneriaid eraill i fonitro cynnydd ac i addasu'r blaenoriaethau.

Cafwyd cyfle i drafod rhai o flaenoriaethau a chynlluniau datblygu'r Strategaeth Tai gyda'r aelodau o'r Pwyllgor Craffu Anffurfiol Gofal ar y 31ain Ionawr 2019; mae'r sylwadau hynny wedi eu hystyried wrth ddatblygu cynnwys y strategaeth ac mae elfennau wedi eu haddasu.

Gofynnodd y Cadeirydd i'r swyddogion am eglurhad o'r penawdau o fewn y strategaeth gan roi cyfle i'r aelodau rhoi sylwadau arnynt.

#### **Amlygwyd y prif bwytiau a ganlyn yn ystod y drafodaeth:-**

- Gyda'r toriadau o fewn y Cyngor, bydd hyn yn anhawster i'r Strategaeth Dai?
- Ar ba sail mae Cymdeithasau Tai yn gwerthu eiddo mewn ocsiynau, beth yw'r anhawster i adnewyddu'r tai hyn fel eu bod yn cyrraedd safon foddhaol i fyw ynddynt?
- Tai gwag - adran cynllunio yn gwrthwynebu cynlluniau ar eiddo gwag, yn unol â pha argymhellion maent yn seilio penderfyniadau'r gyfundrefn?
- Treth ddaliadwy ar dai gwag yng Ngwynedd, cwestiynu'r ffenest amser os yw yn realistig?
- Patrwm lleoliad y tai gwag yng Ngwynedd – angen diffinio'r ardaloedd problemus
- Her sydd yn wynebu pobl ifanc heddiw fel cyflogaeth - pobl ifanc angen crefft (seiri, trydanwyr, adeiladwyr, a phlymwyr). Trydydd sector- HWB Digartref Bangor?
- Rhestr aros – faint o geisiadau sydd ar y rhestr, beth yw trosiant y ceisiadau?
- Dealltwriaeth o dai fforddiadwy.
- Cynllun adeiladu gan yr awdurdod lleol?

Ymhelaethodd y Pennaeth Oedolion Iechyd a Llesiant gyda'r Swyddogion Tai a'r Aelod Cabinet yn eu tro, ar y pwyntiau uchod, gan bwysleisio mai Strategaeth y Cyngor ydyw, gyda chyfraniad y Partneriaethau Tai yn rhannu ein gweledigaeth i'r dyfodol.

#### **Eiddo Is-safonol - Cymdeithasau Tai:**

Yn anffodus gyda rhan o eiddo'r Cymdeithasau Tai, mae angen gwerthu'r stoc os bydd gwariant yn uwch ar eu hadnewyddu nag adeiladu o'r newydd.

Rheswm arall yw bod patrwm maint teuluol wedi newid sydd yn rhwystro'r Cymdeithasau gynnig yr eiddo ar sail rheolau'r wladwriaeth. Felly gwell eu gwerthu fel bod yr arian yn cael ei fuddsoddi i adeiladu tai sydd wir angen ac yn cydymffurfio ag anghenion ein gweledigaeth.

#### **Cynllun Tai Gwag yng Ngwynedd**

Yng Ngwynedd mae'r niferoedd uchaf o dai gwag yng Nghymru gyda'r rhan fwyaf mewn ardaloedd gwledig a chyfran llai mewn ardaloedd trefol.

Mae lleihau nifer y tai gwag yn y sector preifat yn allweddol er mwyn cyfrannu i ganfod tai fforddiadwy i bobl leol.

Mae eiddo sy'n wag am gyfnod hir yn adnodd sy'n cael ei wastraffu.

Mae 400 cant o dai yng Ngwynedd sydd allan o'r system oherwydd eu cyflwr annrhigiadwy, adfeiliedig.

Drwy weithio mewn partneriaeth gyda landlordiaid preifat, byddwn yn parhau i roi cymorth grantiau er mwyn gwella safonau eiddo gwag, yn amodol ar gynnig yr eiddo ar lefel rent lwfans tai lleol neu lai ac wedyn ei ddyrannu i bobl leol; fel canlyniad gall yr eiddo ei adnewyddu a'i ddychwelyd yn ôl i ddefnydd gyda sicrhad o rent fforddiadwy am gyfnod o bum mlynedd.

Mae cynllun arall yn cynnig benthyciadau di-log er mwyn cymell landlordiaid i wella ac uchafu safon eu heiddo. Bydd y landlordiaid sy'n derbyn cymorth yn gorfod ymrwymo i gynnig eiddo o safon uchel ac i osod eiddo ar rent fforddiadwy am gyfnod penodol.

Cynigir hefyd roi cymorth grant i brynwyr tro cyntaf ar gyfer adnewyddu tai gweigion i safon byw.

O safbwynt **treth daliadwy** bydd angen trafodaeth ac ymateb gan yr Adran Cyllid ar hyn. Dim ond blwyddyn o amser a ganiateir i wneud yr eiddo yn gyfanheddol ar hyn o bryd. Cwestiynir a yw blwyddyn yn ddigonol i adnewyddu tai? Awgrymwyd ychwanegu chwe mis at y ffenest blwyddyn i brynwyr tro cyntaf.

O safbwynt hawl **cynllunio** ar y tai gwag, mae her o'r anawsterau sydd yn codi gan yr Adran Cynllunio a Pharc Cenedlaethol Eryri. Dim ond yr adrannau eu hunan sydd â'r gallu i ymateb.

Mynegwyd bod y rhestrau aros yn seiliedig ar yr asesiad angen, yn unol â'r Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol.

Mewn ymateb i'r pwynt a godwyd o 2,000 o bobl ar y rhestr aros gyda throsiant o geisiadau newydd bob blwyddyn o fewn y gofrestr, mae'n bosib y gall y niferoedd sydd wir angen tai fod yn uwch..

Nodwyd bod y cynnydd yn y rhestr am eiddo yn adlewyrchiad y posibilrwydd o ffactorau'n ymwneud â chredydau treth yn gyffredinol a landlordiaid preifat yn gadael y farchnad gan roi straen a chynyddu ymhellach y rhai sydd wir angen tai.

Mae'r Strategaeth Tai yn ceisio adnabod yr angen o wneud rhywbeth am y broblem. Nodwyd bydd yr adran yn gobeithio gwella'r sefyllfa a bod yn fwy uchelgeisiol gan fuddsoddi mwy i ddatrys y broblem.

Sicrhodd y Pennaeth Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ein bod yn mynd i anelu i ddiwallu'r anghenion am dai ar gyfer pobl Gwynedd.

### **Tai Fforddiadwy:**

Pwysleisiwyd bod trafodaethau gyda'r cymdeithasau ynglŷn â'r ddogfen Strategaeth ar dai fforddiadwy wedi digwydd a'n bod o'r un farn am y weledigaeth ynglŷn â'r ffordd i symud ymlaen, gan gofio mai strategaeth ni fel Cyngor yw'r ddogfen yma.

Mewn nifer o gymunedau, mae'n anodd iawn os nad amhosib canfod eiddo addas am lai na £140,000. Mewn rhai cymunedau mae angen saith gwaith yr incwm cyfartalog i brynu eiddo.

### **Her - Prinder Crefftwy:**

Her sy'n ein hwynebu wrth gyfarch y diffyg blynyddol yw prinder crefftwy i adeiladu'r tai. Mae'r prinder crefftwy yma wedi golygu oedi sylweddol a chynnydd mewn costau mewn rhai cynlluniau dros y blynyddoedd diwethaf.

Ychwanegir at yr her gan nad oes posibilrwyddi crefftwy ifanc o fewn y Cyngor. Cytunodd y swyddogion bod Gwynedd yn ymwybodol o'r bwlch a'i fod yn eitem i'w ystyried yn y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi yn bennaf. Mae angen gweld sut i annog y darparwyr yma gyda chynnig prentisiaethau. Rhaid cadw mewn cof mai prif bwynt y cyfarfod yw'r Strategaeth Tai a

sut i hwyluso a diwallu gwir angen y bobl yng Ngwynedd i gael cartrefi sydd yn cyrraedd y gofynion penodol.

Ychwanegwyd gan yr Uwch Reolwr Tai bod cyfleoedd i'r gweithlu yng Nghaergybi ar hyn o bryd, sydd yn cynnig hyfforddiant i bobl ifanc i greu'r tai modiwlar sef cynllun peilot gan Gartrefi Conwy. Rhaid i'r Cyngor gadw golwg ar hyn i weld os bydd yn llwyddiannus, posib wedyn datblygu mewn ardaloedd eraill i ymateb i'r her o hyfforddi crefftwyr ifanc.

Gofynnwyd i'r Aelod Cabinet os oes modd edrych i mewn ar sefydlu cwmni i adeiladu tai i bobl ifanc o fewn yr ardaloedd yng Ngwynedd. Ymatebwyd er mwyn cyflawni hyn bydd angen i chwi fel aelodau gefnogi cyfeiriad y Strategaeth sydd o flaen y pwyllgor gan roi'r siawns i agor drws i greu opsiwn ychwanegol, a'r ffordd orau i gyflawni anghenion yr Uned Dai.

Dywedodd yr Aelod Cabinet, yn gyffredinol mae'r sylwadau yn cefnogi'r strategaeth a fydd yn mynd ymlaen i'r Cyngor ym mis Gorffennaf. Nodwyd na fydd y strategaeth yn dod yn ôl i'w craffu ond bydd sylwadau'r aelodau yn cael eu hystyried. Gofynnwyd i Aelodau anfon unrhyw sylwadau eraill am y strategaeth at y Rheolwr Aelodau - Cefnogi a Chraffu.

#### **Gwasanaethau Hwb:**

Nodwyd rhai syniadau ac angen ar gyfer gwasanaethau sydd yn cyfuno gwaith y Bwrdd Iechyd a Gofal gan gynnwys elfen o dai. Daeth y materion a sylwadau gan y partneriaid tai gyda'r Bwrdd Iechyd yn hybu yn bennaf. Mae'r gwasanaethau yma yn well pe bai iddynt gael eu lleoli o fewn y gymuned. Teimlad yr adran oedd y bydda'n well lleoli yng nghanol Dinas Bangor, syniadau sydd yn adlewyrchu anghenion y bobl o fewn y cymunedau ym Mangor ar y ddarpariaeth sydd a'r gael iddynt. Mae'n ddyddiau cynnar a bydd angen edrych ar hyn a'r buddiannau o fewn y strategaeth yn ystod y flwyddyn nesaf. Cynllun heriol o safbwynt ariannol ond o'i becynnu yn gywir dylai fod yn gynllun sy'n sgorio'n uchel gyda chefnogaeth o wahanol ffynonellau.

#### **Ffigyrau Hafod Y Gest:**

Nodwyd, nad yw ffigyrau Hafod Y Gest wedi eu derbyn eto, cawn weld y ffigyrau cyflawn wedi i'r unedau gael eu llenwi. Bydd dadansoddiad yn cael ei gyflwyno unwaith bydd diweddariad.

#### **Materion a godwyd:**

Gofynnodd y Cadeirydd ar ran y pwyllgor i gydnabod eu diolchiadau i'r Cynghorwr Gareth Roberts yn dilyn ei ymddeoliad fel Aelod Cabinet Oedolion, Gofal ac Iechyd. Cytunodd y Rheolwr Aelodau - Cefnogi a Chraffu i anfon gair o ddiolch ato.

Mynegodd y Rheolwr Aelodau - Cefnogi a Chraffu ei ddiolchiadau i'r Cynghorwr Eryl Jones-Williams am ei holl waith fel Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Gofal am y ddwy flynedd diwethaf.

#### **PENDERFYNWYD:**

- Diolchwyd am y ddrafft Strategaeth Tai a gofynnwyd i'r Adran Dai gyfarch sylwadau'r Aelodau wrth fynd â'r Strategaeth ddrafft ymlaen i'r Cabinet neu'r Cyngor.
- Gofynnwyd i'r Rheolwr Aelodau - Cefnogi a Chraffu, fynd â'r drafodaeth ymlaen ynglŷn â threth cyngor i'r Adran Cyllid.
- Ystyried cynnal Ymchwiliad Craffu ym maes Tai Gwag.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.15yb a daeth i ben am 12.00yp.

**CADEIRYDD**



# Eitem 7

Cyfarfod	Pwyllgor Craffu Gofal
Dyddiad	6ed o Fehefin 2019
Teitl	Y Gweithlu a Recriwtio o fewn y Maes Gofal
Awdur	Rhion Glyn, Uwch Reolwr Busnes
Aelod	Dafydd Meurig, Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant

## 1. Pwrpas yr Adroddiad

- 1.1 Cyflwynir yr adroddiad hwn i'r Pwyllgor Craffu Gofal er gwybodaeth ac i godi ymwybyddiaeth o'r hyn sydd ar waith.
- 1.2 Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cyflwyno rhaglen waith ac yn gosod amserlen ar gyfer yr hyn y tybir sydd angen ei wneud ar draws y maes.
- 1.3 Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar y gweithlu sy'n gyflogedig yn y maes gofal ac nid yw'n ymdrin â chyfraniad unigolion sy'n gofalu yn ddi-dâl am aelod o'r teulu, ffrind neu gymydog (gofalwyr). Wedi i'r Cabinet fabwysiadu Strategaeth Gofalwyr Gogledd Cymru ym mis Chwefror eleni, rydym yn defnyddio teclyn hunanasesu y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol i fesur ein cynnydd yn erbyn y strategaeth honno ac yn adrodd ar hynny i'r cyfarfodydd monitro perfformiad.

## 2. Cyflwyniad

- 2.1 Mae cadw staff profiadol a recriwtio staff newydd i'r maes yn llwyddiannus yn gwbl allweddol os am lwyddo i drawsnewid gwasanaethau Iechyd a Gofal i'r dyfodol.
- 2.2 Gydag adnoddau yn prinhau, y galw yn cynyddu ac anghenion ein trigolion yn dwysau, mae'n bwysicach nac erioed i ystyried os yr ydym yn gwneud popeth sydd o fewn ein gallu i ymateb. Yn ogystal felly ag ymdrin â'r heriau sy'n ein hwynebu heddiw mae angen cynllunio i'r sialensiau sydd ar y gorwel.
- 2.3 Mae Cynllun y Cyngor 2018 – 2023 wedi gosod y 'Gweithlu a Recriwtio o fewn y Maes Gofal' fel un o brif flaenoriaethau strategol y Cyngor ar gyfer y blynyddoedd nesaf.
- 2.4 Bydd y Pwyllgor Craffu Gofal yn gyfarwydd iawn â'r sialensiau sy'n wynebu rhai meysydd, ac yn benodol y maes Gofal Cartref. Mae gweithdai wedi eu cynnal gydag aelodau dros y flwyddyn ddiwethaf, yn ogystal ag adroddiadau wedi eu cyflwyno i'r Pwyllgor yn rhoi

diweddariad ar y gwaith trawsnewid sy'n mynd rhagddo a'r hyn sy'n gwneud hi'n anodd recriwtio a chadw staff yn y maes.

- 2.5 Pwysleisiwn bwysigrwydd sicrhau fod y rhaglen waith yn cael ei weld fel rhaglen y gellid ei ychwanegu ato, manylu arno a'i addasu fel y byddwn yn dod i gael gwell dealltwriaeth o'r hyn sydd angen ei wneud.
- 2.6 Dylid tynnu sylw at y ffaith mai pwrpas rhai o'r ffrydiau gwaith fydd i wella ein dealltwriaeth o'r hyn sy'n digwydd yn barod, er mwyn ystyried os oes rhywbeth y gallwn ei wneud yn ychwanegol neu'n wahanol.
- 2.7 Wrth ystyried hyd a lled y rhaglen waith mae'n amlwg nad oes o reidrwydd atebion syml a hawdd i'r her sy'n bodoli. Dylid sylweddoli cymhlethdod yr hyn sydd angen ei wneud a'r ffaith y bydd y rhaglen waith yn un fydd yn cael ei ddatblygu dros amser. Bydd hyn yn derbyn ystyriaeth wrth fod yn adrodd ar gynnydd trwy'r trefniadau monitro perfformiad sy'n cael eu hamlygu isod.

### 3. Rhaglen Waith

- 3.1 Gweler y rhaglen waith yn Atodiad 1.

### 4. Camau nesaf

- 4.1 Yn dilyn derbyn sylwadau gan y Pwyllgor Craffu Gofal ar y rhaglen waith bwriedir ei chyflwyno i'r Cyfarfod Monitro Perfformiad nesaf a chynnig diweddariadau i'r cyfarfod hwnnw o hynny ymlaen.
- 4.2 Yn ogystal ag adrodd yn gyson i'r Cyfarfod Monitro Perfformiad ble mae Aelodau Craffu hefyd yn mynychu, byddwn yn monitro cynnydd y rhaglen waith trwy adroddiadau perfformiad yr Aelod Cabinet sy'n cael ei gyflwyno yn rheolaidd i'r Cabinet.
- 4.3 Fe fyddwn yn defnyddio'r fforymau hyn i adrodd ar lwyddiant y gwaith ond hefyd ar gyfer amlygu unrhyw rwystrau sy'n ein hatal rhag cyflawni.
- 4.4 Yn ystod misoedd nesaf byddwn yn bwrw ymlaen gyda'r hyn sydd wedi manylu arno yn y rhaglen waith.

Ffrwd Gwaith	Diweddariad	Camau i'w cymryd
Gwaith Mapio	Mae grŵp wedi ei sefydlu ac wedi dechrau ar y gwaith o fapio'r hyn sy'n digwydd yn barod er mwyn adnabod unrhyw fylchau sy'n bodoli. Mae'r grŵp yn cynnwys swyddogion allweddol o'r Uned Datblygu'r Gweithlu, Adnoddau Dynol a Darparu Mewnol a rhagwelir y byddwn yn tynnu eraill i mewn yn ystod y misoedd nesaf.	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Disgwylir y byddwn wedi cwblhau'r gwaith erbyn mis Hydref ac y byddwn mewn sefyllfa i ychwanegu at a chyfoethogi'r rhaglen waith yn dilyn o hynny.</li> </ul>
<p style="writing-mode: vertical-rl; transform: rotate(180deg);">Tud. 11</p> <p>Tal ac Amodau Gwaith</p>	<p>Ar sail egwyddorion Ffordd Gwynedd mae'r gwaith trawsnewid Gofal Cartref wedi adnabod gwastraff yn y trefniadau gweithio cyfredol. Rydym o'r farn fod cyfle gwirioneddol i wella lefelau cyflog gweithwyr rheng flaen y sector annibynnol gan anelu i'w cysoni gyda lefelau cyflog y gweithlu mewnol.</p> <p>Mae'r gwaith hwn yn ein harwain hefyd at yr angen i gael perthynas waith aeddfed a chytundebau mwy addas gyda darparwyr annibynnol. Bydd y ffordd y byddwn yn comisiynu Gofal Cartref i'r dyfodol yn newid. Yn hytrach na chomisiynu fesul unigolyn a thalu'r darparwr am bob awr sy'n cael ei ddarparu, fe fyddwn yn comisiynu ar sail canlyniadau i unigolion ac yn cytundebu gyda darparwyr ar sail ardaloedd daearyddol dros gyfnod penodol o amser.</p> <p>Bydd y ffordd newydd o weithio a'r trefniadau comisiynu i'r dyfodol yn rhoi mwy o hyblygrwydd i'r darparwr. Rhagwelir y byddai hyn yn arwain at gael gwared o'r angen i weithwyr gofal cartref weithio patrymau gwaith anghynladwy fel sy'n digwydd ar hyn o bryd.</p> <p>Mae anghysondeb rhwng tal ac amodau gwaith yn bodoli mewn meysydd eraill megis Tai a Chefnogaeth a Chartrefi Preswyl / Nyrsio. Mae'r sector Preswyl / Nyrsio annibynnol yn adrodd yn gyson pa mor anodd ydyw i recriwtio staff newydd a chadw staff profiadol yn wyneb y telerau gwaith sy'n cael eu cynnig gan y Bwrdd Iechyd a'r Cyngor.</p> <p>Gan gydnabod fod yr anghysondeb sy'n bodoli ar draws y maes gofal rhwng y sector fewnol a'r sector annibynnol angen ei flaenoriaethu, dylid hefyd gofyn y cwestiwn sylfaenol os yw hyd yn oed lefelau cyflog ein gweithlu mewnol yn adlewyrchu'r hyn ddylent fod o ystyried y disgwyliadau a'r hyn sy'n ofynnol ohonynt yn eu swyddi erbyn hyn. I'r perwyl hyn fe fyddwn yn gofyn am asesiad o gyfrifoldebau staff rheng flaen ein</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• O Ebrill 2021 ymlaen byddwn wedi cysoni lefelau cyflog gofalwyr cartref ar draws y sectorau.</li> <li>• O Ebrill 2021 ymlaen rydym yn disgwyl gweld y bydd gan ddarparwyr annibynnol ar draws Gwynedd y gallu i roi cytundebau tymor hir i staff gan ymrwymo hefyd i oriau cytundeb penodol. Ni fyddwn felly yn disgwyl gweld cytundebau 'Zero hours' yn cael eu rhoi i staff yng Ngwynedd.</li> <li>• O Ebrill 2021 ymlaen byddwn yn disgwyl gweld patrymau gwaith gofalwyr cartref yn gwella yn sylweddol ac yn newid i fod yn gweithio shifftiau penodol yn ystod y diwrnod.</li> <li>• Yn benodol yn y maes Preswyl a Nyrsio mae gwaith ar gychwyn i geisio cael dealltwriaeth o beth yw'r gwir gost o ddarparu'r gofal. Mae hyn yn cael sylw a blaenoriaeth yn rhanbarthol yn ogystal. Rhagwelwn y bydd y rhaglen waith yma yn dod yn fwy eglur dros y misoedd nesaf.</li> </ul>

	<p>gweithlu mewnol. Ni fydd canlyniad asesiad o'r fath o reidrwydd yn arwain at gynnydd mewn lefelau cyflog.</p>	
<p>Cynllunio'r Gweithlu</p>	<p><b>Sgiliau Arbenigol</b> – Rydym yn barhaus yn ceisio adnabod bylchau sy'n bodoli o ran sgiliau arbenigol, ac un ffordd amlwg o wneud hynny yw dadansoddi patrymau sy'n amlygu eu hunain wrth fod yn ceisio recriwtio. Un enghraifft benodol o hyn yw rôl y Therapydd Galwedigaethol. Mewn ymateb i hyn mae enghreifftiau da yn bodoli o ran cydweithio gyda Cholegau megis Prifysgol Glyndwr sydd wedi arwain at ddatblygu cwrs Therapydd Galwedigaethol rhan amser. Fodd bynnag, yn ogystal â chreu cyfleoedd i hyfforddi a datblygu y gweithlu cyfredol, rydym o'r farn y dylem roi'r ffocws hefyd ar feithrin ein talent ein hunain trwy gynlluniau megis hyfforddeion proffesiynol, prentisiaethau a phrofiadau gwaith.</p> <p>Enghraifft arall o drefniadau cydweithio cadarn sy'n bodoli ar gyfer datblygu talent yn lleol yw'r lleoliad sy'n cael ei gynnig yng Ngwynedd i fyfyrwyr y cwrs MA Gwaith Cymdeithasol ble mae'r Cyngor yn recriwtio ar gyfartaledd 80% o'r myfyrwyr sy'n cael eu lleoli hefo'r awdurdod bob blwyddyn. Yn ogystal a hyn mae trefniant mewn lle i gefnogi hyfforddai proffesiynol Gwaith Cymdeithasol yn flynyddol.</p> <p>Yn benodol o ran y cynllun prentisiaethau fe fyddwn yn parhau i ddylanwadu ar y rhaglen gan sicrhau bod y maes gofal yn cael ei flaenoriaethu. Byddwn yn dylanwadu'n benodol trwy Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol er mwyn datblygu'r rhaglen i gynnwys mwy o gyfleoedd ar lefelau uwch megis rolau Gweithwyr Cymdeithasol a Therapyddion Galwedigaethol.</p> <p><b>Gweithlu'r dyfodol</b> - Mae llawer o waith da wedi digwydd dros y blynyddoedd diwethaf sydd ynghlwm a threialu rolau gwahanol ar gyfer y dyfodol, ac yn benodol yn rhoi'r ffocws ar rolau sy'n gwneud cyfuniad o dasgau 'Iechyd' a thasgau 'Gofal'. Fodd bynnag, wrth adlewyrchu mae'n debyg fod yr hyn sydd wedi ei dreialu hyd yma wedi cael ei ddylunio ar sail ein bod yn meddwl ein bod yn gwybod beth sydd ei angen, yn hytrach na'n bod wedi dylunio rôl sy'n ymateb i'r galw sydd ar ein gwasanaethau. Yn ogystal a chynllunio i'r dyfodol mae gyrwyr a cyfleoedd amlwg yn codi ble mae angen ymateb iddynt. Enghraifft o hynny yw ymdrechion y Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol i sicrhau arian trwy Fargen Dwf Gogledd Cymru i uwch sgilio gweithwyr gofal mewn Cartrefi Preswyl / Nyrsio i feithrin sgiliau clinigol er mwyn ymateb i'r diffyg Nyrsys sy'n bodoli.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddwn yn gwneud cais am arian dros dro i sefydlu cronfa benodol ar gyfer sicrhau fod gennym yr adnoddau sydd eu hangen arnom i feithrin talent yn lleol yn ystod y cyfnod o wasgfa ariannol sy'n parhau. Fel rhan o hyn byddwn hefyd yn cyflwyno cais am Hyfforddai Proffesiynol Therapydd Galwedigaethol.</li> <li>• Yn ystod mis Medi 2019 bydd x5 prentis lefel 2 Gofal, ac x1 prentis lefel 5 (rheolwr) yn cychwyn.</li> <li>• Mae darn o waith penodol ac arbenigol wedi ei gomisiynu yn ddiweddar i fod yn deall beth yw'r galw sydd ar ein gwasanaethau erbyn hyn, a beth felly yw'r math o rôl sydd ei angen i'r dyfodol. Rhagwelir y bydd y gwaith yma yn dechrau yn ystod Gorffennaf / Awst 2019.</li> <li>• Ar ôl treialu'r cynllun mewn rhai ardaloedd penodol, rydym mewn sefyllfa i sefydlu'r rôl ym mhob un o'r pum ardal hyd at Mawrth 2021. Yn ystod y flwyddyn nesaf byddwn asesu llwyddiant y</li> </ul>

	<p>Rôl y dylid tynnu sylw ato'n benodol yw'r Cysylltydd Cymunedol. Mae arian grant y llywodraeth wedi ein galluogi i leoli aelodau o'r 3ydd sector yn ein timau Timau Adnoddau Cymunedol. Mae'r rôl yn golygu gweithio gyda chymunedau a mudiadau yn lleol er mwyn adnabod yr hyn sydd ar gael i drigolion, a thrwy hynny hefyd hybu gweithgarwch cymunedol i ymateb i rai o'r bylchau sy'n bodoli. Mae rolau eraill sy'n hybu llesiant hefyd yn cael eu treialu yng Ngwynedd a thu hwnt a bydd angen cadw golwg ar y datblygiadau hyn yn ogystal.</p> <p><b>Data</b> - Mae gwaith yn mynd rhagddo ar draws yr awdurdod i adnabod swyddi allweddol, cofnodi'r rhwystrau a chyfleoedd i'r dyfodol. Er bod gennym drosolwg wybodaeth staffio sy'n ein galluogi i wneud penderfyniadau, credwn fod gennym le i wella o ran dadansoddi'r data a'i blethu gyda gwybodaeth comisiynu fyddai yn ein cefnogi i wneud penderfyniadau i'r dyfodol.</p>	<p>cynllun gan ystyried felly ddatblygiad y rôl i'r tymor hir.</p>
<p>Statws, delwedd a phroffil</p> <p>Tud. 13</p>	<p>Rhagwelwn y bydd y gwaith trawsnewid Gofal Cartref heb os yn arwain at wella statws a delwedd swydd y gofalydd cartref i'r dyfodol. Mae'r newid yn golygu ymddiried mewn staff rheng flaen, gofalydd cartref yn dod yn rhan o dîm ehangach o weithwyr lechyd a Gofal, a thrwy hyn amlygu'r llwybrau gyrfa sy'n bosib yn y maes. Rhagwelwn y bydd gwersi i'w dysgu yn amlygu eu hunain o'r gwaith yma ar gyfer meysydd eraill.</p> <p>Am y tro cyntaf mae gofyn cyfreithiol i staff rheng flaen y maes gofal ar draws Cymru fod yn cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. Er y sialensiau sydd ynghlwm, megis staff yn gweld fod mwy o ddisgwyliadau a chyfrifoldebau arnynt a dim cydnabyddiaeth ariannol yn dilyn, amcan amlwg y gofyn cyfreithiol yw cyfrannu tuag at godi statws swyddi'r maes yn y tymor hwy. Er mwyn hwyluso a chefnogi'r newid mae'r Cyngor ariannu'r gost cofrestru i staff y Cyngor, yn ogystal hefyd a chyflogi Swyddog Cefnogi Cofrestru dros gyfnod o ddwy flynedd.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• O Ebrill 2021 ymlaen rhagwelir y byddwn yn gweld effaith positif y newid hwn ar statws a delwedd y swydd. Wedi dweud hyn rydym yn barod yn hyrwyddo'r ffordd newydd o weithio.</li> <li>• Gofalydd Cartref yn gorfod bod yn gofrestredig erbyn Mawrth 2020. Gweithwyr Preswyl yn gorfod bod yn gofrestredig erbyn Mawrth 2022</li> </ul>
<p>Cyfathrebu a Marchnata</p>	<p>Mae 'Cyfathrebu a Marchnata' yn treiddio trwy'r holl ffrydiau gwaith wrth gwrs ac yn gwbl allweddol i lwyddiant ein hymdrechion i recriwtio a chadw ein staff profiadol i'r dyfodol.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Byddwn yn tynnu gwybodaeth gweithgarwch cyfathrebu a marchnata at ei gilydd a'i osod ar sail amserlen. Ar ôl gwneud hynny byddwn wedyn yn ystyried beth yw'r bylchau a'r camau nesaf.</li> </ul>

	<p>Gwyddwn fod llawer o ymdrech a gweithgarwch wedi cymryd lle dros y blynyddoedd diwethaf ond credir y byddai'n fanteisiol cael gwell trosolwg o'r hyn sy'n digwydd o rŵan ymlaen. Credir y byddai tynnu gwybodaeth at ei gilydd yn rhoi'r cyfle i dargedu yn well a sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o amser ac adnoddau.</p> <p>Er bod amryw o ddeunyddiau marchnata yn cael eu datblygu ar lefel lleol a chenedlaethol, credir y byddai cael gafael tynnach ar yr hyn sy'n digwydd yn ein helpu i benderfynu lle allwn wella ein hymdrechion i'r dyfodol. Noder y bydd swydd newydd rhanbarthol 'Cydlunydd Gyrfa mewn Gofal' wedi cael ei lleoli yng Ngwynedd ac yn cychwyn yn fuan.</p>	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Dros y 6 mis nesaf fe fyddwn yn ystyried addasrwydd y deunyddiau sydd gennym ar gyfer marchnata a chyfathrebu, gan ddatblygu ein deunyddiau ein hunain yn unol a'r angen.</li> <li>• Byddwn yn ystyried yr adnodd dros dro fydd ei angen arnom ar gyfer ymgymryd â'r gwaith dechreuol sydd angen ei wneud o ran sefydlu trefniadau a thynnu pethau at ei gilydd.</li> </ul>
<p><b>Fe fyddwn yn monitro cynnydd y rhaglen waith uchod trwy adrodd yn gyson i'r Cyfarfod Monitro Perfformiad, yn ogystal â thrwy adroddiadau perfformiad yr Aelod Cabinet sy'n cael ei gyflwyno yn rheolaidd i'r Cabinet. Defnyddir y fforymau hyn i adrodd ar lwyddiant y gwaith ond hefyd ar gyfer amlygu unrhyw rwystrau sy'n ein hatal rhag cyflawni.</b></p>		